GIG CYMRU NHS WALES
Perfformiad a Gwella
Performance and Improvement

# Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol GIG Cymru

## 2026-2031



# Contents


Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet 3

Crynodeb Gweithredol 4

1. Gosod y Cyd-destun 5
2. Nod y Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol 8
3. Pam Rydym yn Cymryd Camau Gweithredu 10
4. Ein Blaenoriaethau Diogelwch Clinigol Cenedlaethol 12
5. Cryfhau Diogelwch Cleifion ar Draws y System ledled Cymru 15
6. Y Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol Pum Mlynedd 18
7. Cyflawni'r Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol 29
8. Mesur yr Effaith 30
9. Casgliad 31

Atodiad 1: Y Dystiolaeth a'r Egwyddorion y tu ôl i'n Cynllun 32

Atodiad 2: Cydrannau Craidd System Rheoli Ansawdd ar gyfer Diogelwch Cleifion 34

Atodiad 3: Tirwedd Rheoli Ansawdd a Llywodraethu presennol GIG Cymru ar gyfer Diogelwch Cleifion 38




# Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet

**Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol GIG Cymru, sy'n nodi ymrwymiad clir ac unedig i gryfhau diogelwch ac ansawdd gofal. Datblygwyd y cynllun gan y GIG, ar gyfer y GIG, ac fe'i luniwyd trwy gydweithio ar draws y gwasanaeth gofal iechyd ac mae wedi'i seilio ar brofiad, arbenigedd a mewnwelediad y rhai sy'n darparu ac yn derbyn gofal bob dydd.**

Mae diogelwch cleifion wrth wraidd ymddiriedaeth yn ein gwasanaethau iechyd a gofal. Mae staff yn darparu gofal gyda'r tosturi a'r proffesiynoldeb mwyaf, ond mewn system heriol, sy'n aml yn gymhleth, mae risg bob amser y gallai niwed y gellid ei osgoi ddigwydd.

Cynlluniwyd y cynllun hwn i ymateb i'r risg honno gyda gonestrwydd, uchelgais a phenderfyniad cyffredin i sbarduno gwelliant. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar wrando ar gleifion, teuluoedd a staff, ac yn cydnabod bod gofal diogel yn cael ei lunio nid yn unig gan gamau gweithredu unigol ond gan y systemau, y diwylliannau a'r amodau y mae pobl yn gweithio ynddynt.

Am y tro cyntaf, mae gan Gymru fframwaith cydlynol ar gyfer y genedl gyfan sy'n ein symud y tu hwnt i fentrau ar wahân a thuag at ddull cyson, system-gyfan sydd wedi'i wreiddio mewn dysgu, atal a gwelliant parhaus. Mae'n cyd-fynd â'r dyletswyddau statudol yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ac yn cefnogi uchelgeisiau strategol ehangach. Drwy ymgorffori diogelwch cleifion mewn system rheoli ansawdd genedlaethol gryfach, mae'n dod ag arweinyddiaeth, gwelliant, sicrwydd a rheolaeth at ei gilydd mewn un strwythur.

Wrth wraidd y cynllun hwn mae ymrwymiad diysgog i ddiwylliant o ddiogelwch, arweinyddiaeth weladwy ac ymgysylltiedig, amgylcheddau gwaith sy'n ddiogel yn seicolegol, a dysgu o brofiad ystyrlon. Mae'n cydnabod y dylid defnyddio mewnwelediad ac arbenigedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn rheolaidd – ni ddylai fod yn ddyhead. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar wrando ar gleifion, teuluoedd a staff.

Bydd cyflawni'r cynllun hwn hefyd yn ymdrech ar y cyd. Drwy bartneriaeth barhaus, diffuantrwydd ac ymrwymiad ar y cyd i ddysgu, gallwn leihau niwed y gellir ei osgoi, cryfhau diwylliant o ddiogelwch a meithrin GIG Cymru mwy gwydn, sy'n parhau i ennill hyder y cyhoedd ac yn cefnogi ei weithlu i ddarparu gofal tosturiol o ansawdd uchel bob dydd.



**Jeremy Miles AS**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Crynodeb Gweithredol

## Mae'r Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol yn gosod nod beiddgar: gwneud gofal yng Nghymru yn fwy diogel drwy leihau niwed y gellir ei osgoi a meithrin diwylliant lle mae dysgu a gwella wrth wraidd popeth a wnawn.

Diogelwch cleifion yw sylfaen gofal iechyd o ansawdd uchel. Ac eto heddiw, mae ymdrechion diogelwch ledled Cymru yn aml yn dameidiog ac yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth yn hytrach na gwelliant parhaus. Mae'r Cynllun hwn yn newid hynny. Ynghyd â Chymru Iachach a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, mae'n creu fframwaith unedig ar draws y system sy'n gwneud diogelwch cleifion yn flaenoriaeth hanfodol i bob rhan o GIG Cymru. Mae hwn yn Gynllun Diogelwch Cleifion system gyfan sy'n cwmpasu gofal sylfaenol, cymunedol, eilaidd a chymdeithasol. Mae ansawdd a diogelwch gwasanaethau a ddarperir gan broffesiynau contractwyr annibynnol- yn cynnwys Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r Byrddau Iechyd. Mae'r Cynllun yn cefnogi sicrwydd cyson a chymesur ar draws pob rhan o'r system.

Wrth wraidd y Cynllun mae dull System Rheoli Ansawdd (QMS), sy'n dwyn ynghyd gynllunio, gwella, rheoli a sicrwydd mewn un model cyson ar gyfer diogelwch cleifion. Mae'r dull hwn yn cael ei arwain gan dri philer sylfaenol sy'n cael eu cefnogi gan chwe galluogwr allweddol—arweinyddiaeth, gweithlu, diwylliant, gwybodaeth a mewnwelediadau, dysgu ac ymchwil a dull systemau cyfan — ac, ar y cyd, maent yn sbarduno darpariaeth gofal diogel o ansawdd uchel ar draws GIG Cymru.

Yn hollbwysig, mae'r dull hwn yn cydnabod nad yw diogelwch yr un peth â pherfformiad: mae data perfformiad yn dweud wrthym beth sydd eisoes wedi digwydd, tra bod diogelwch yn ymwneud â rhagweld beth allai ddigwydd nesaf. Drwy wella deallusrwydd diogelwch drwy'r System Rheoli Ansawdd a'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, mae'r Cynllun yn cryfhau gallu GIG Cymru i ganfod risgiau'n gynnar, dysgu'n rhagweithiol ac atal niwed y gellir ei osgoi.

Bydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn arwain y ddarpariaeth, mewn partneriaeth â sefydliadau cenedlaethol a systemau lleol, gan sicrhau bod gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r gefnogaeth, yr arbenigedd a'r fframweithiau sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

**Mae'r Cynllun yn feiddgar o ran uchelgais ond yn ymarferol o ran dyluniad, er mwyn lleihau niwed y gellir ei osgoi, cryfhau diwylliant diogelwch ac ymgorffori dysgu ar bob lefel o GIG Cymru.**



# 1. Gosod y Cyd-destun

**Diogelwch cleifion yw sylfaen gofal o ansawdd uchel. Ac eto yng Nghymru, er gwaethaf cynnydd nodedig o dan y Ddyletswydd Ansawdd, nid oes cynllun cenedlaethol sengl ar hyn o bryd sy'n ymroddedig i ddiogelwch cleifion. O ganlyniad, mae gweithgarwch yn y maes hwn yn parhau i fod yn ddatgysylltiedig, yn aml yn adweithiol ac yn canolbwyntio'n ormodol ar gydymffurfiaeth yn hytrach nag ar ddysgu a gwella. Mae natur ranedig y gweithgarwch yn gadael cleifion a staff yn agored i achosion lle gall niwed y gellir ei osgoi ddigwydd eto, ac mae'n atal datblygiad hollbwysig gwydnwch ar lefel y system er mwyn ymdopi â'r pwysau cynyddol ar y GIG yng Nghymru.**

Mae craffu diweddar yn atgyfnerthu'r brys. Mae Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2024–25 yn disgrifio system sydd "dan bwysau'n barhaus"[1], lle mae risgiau i ddiogelwch cleifion yn parhau a lle nad yw gwelliant yn cael ei gynnal yn gyson, er bod staff ymroddedig yn darparu gofal da mewn amodau anodd.

Mae systemau'n tueddu i ddychwelyd i ymddygiadau cyfarwydd sy'n ceisio sicrwydd, gan gyfrif digwyddiadau yn hytrach na deall risg, cau camau gweithredu yn hytrach na dyfnhau mewnwelediad a chulhau ffocws pan fo angen iddo ehangu fwyaf. Yn aml, nid o un methiant dramatig y mae niwed yn deillio ond o amodau gwaith bob dydd — cyfaddawdau, rhagdybiaethau ac amrywioldeb mewn prosesau — sy'n rhyngweithio mewn ffyrdd sy'n anodd eu gweld ar y pryd [2].

1 Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (2025) 2024–2025
2 Baker, T. (2026) Why I worry the NHS could slip backwards on patient safety. Corff Ymchwilio Diogelwch Gwasanaethau Iechyd

Yn hanesyddol, data a systemau sydd fwyaf amlwg o fewn gofal eilaidd sydd wedi dominyddu gweithgarwch diogelwch cenedlaethol. Mae hyn wedi creu risg nad yw'r amodau diogelwch, y pwysau a'r deallusrwydd o ofal sylfaenol a chymunedol - yn enwedig Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - yn cael eu codi'n gyson na'u pwysoli mewn dealltwriaeth genedlaethol.

Rhaid i'n hymateb felly symud o ffocws unigol ar ofal eilaidd a chau digwyddiadau i ddysgu drwy systemau, cysylltu arwyddion o ddigwyddiadau, profiad a gweithrediadau ag ailgynllunio rhagweithiol ar raddfa fawr – newid angenrheidiol a leisiwyd drwy'r dull Gwrando ar Bobl newydd ar gyfer GIG Cymru[3]. Mae'r System Rheoli Ansawdd genedlaethol a nodir yn y Cynllun hwn wedi'i llunio i wneud yn union hynny — cysylltu cynllunio, gwella, rheoli a sicrwydd yn un system ddysgu i Gymru.

Mae anghydraddoldebau iechyd yn parhau i waethygu'r heriau hyn. Amcangyfrifir eu bod yn costio tua £322 miliwn y flwyddyn i wasanaethau acíwt y GIG yng Nghymru[4] drwy dderbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi, triniaethau a gaiff eu gohirio a chyflyrau cronig wedi'u gwaethygu gan ffactorau economaidd-gymdeithasol. Rhagwelir y bydd nifer yr achosion o glefydau cronig fel diabetes, canser a dementia yn cynyddu ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

3 Senedd Cymru (2025) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025

4 Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Cost anghydraddoldeb iechyd i'r GIG yng Nghymru

Yn GIG Cymru, nid uchelgeisiau ar wahân yw ansawdd a diogelwch cleifion — maent yn y bôn yn gysylltiedig ac yn atgyfnerthu ei gilydd. Ni all gofal o ansawdd uchel fodoli heb ddiogelwch a rhaid i ofal diogel fod wedi'i wreiddio mewn arferion sy'n diffinio ansawdd — rhai sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol hwn yn rhannu nod unedig i gefnogi a galluogi'r canllawiau Dyletswydd Ansawdd strategol presennol: darparu gofal sy'n gyson ddiogel, effeithiol ac ymatebol i anghenion pobl Cymru.

Cydnabyddir diogelwch yn faes craidd o ansawdd gofal iechyd, fel y diffinnir gan y Sefydliad Meddygaeth ac a fabwysiadir yn rhyngwladol[5]. Mae hefyd yn un o'r chwe Maes Ansawdd yn y Ddyletswydd Ansawdd:

> **Diogel**: Mae ein system gofal iechyd yn system hynod ddibynadwy a diogel o ansawdd uchel sy'n osgoi niwed y gellir ei atal, gan fanteisio i'r eithaf ar y pethau sy'n mynd yn iawn a dysgu pan fydd pethau'n mynd o chwith i'w hatal rhag digwydd eto. Caiff iechyd, diogelwch a llesiant pobl eu hyrwyddo a'u hamddiffyn yn weithredol; caiff risgiau eu nodi a'u monitro a lle bo modd, caiff risgiau i ddiogelwch eu lleihau neu eu hatal. Rydym yn hyrwyddo ac yn amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu mewn perygl ar unrhyw adeg. Pan allai plant neu oedolion fod yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu pan allent fod mewn perygl o hynny, rydym yn cymryd camau priodol ac amserol ac yn rhoi gwybod am bryderon.[6]

5 Institute of Medicine (2001) Crossing the Quality Chasm: A New Health System for the 21st Century. Washington, D.C: National Academy Press; 2001.

6 Llywodraeth Cymru (2023) Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd 2023

Mae atal niwed, lleihau amrywiad direswm a gwella canlyniadau i gyd yn nodau cyffredin sy'n gofyn am ddull cydlynol a system gyfan. Mae lansio'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QOF) cenedlaethol yn GIG Cymru ym mis Hydref 2025 wedi bod yn gam ymlaen i gyflawni'r nodau hyn. Mae'n darparu offeryn pwerus ar gyfer mesur y gwelliannau ar lefel y system mewn gofal a fydd yn cael eu galluogi gan y Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol.

Bydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cyflawni ystod o gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun i gryfhau diwylliant diogelwch GIG Cymru o ddysgu, tryloywder a chydweithio. Bydd yn arwain byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau wrth alinio blaenoriaethau strategol, mesur cynnydd a meithrin amgylcheddau lle mae cleifion a staff fel ei gilydd yn teimlo'u bod yn cael eu diogelu, eu parchu a'u grymuso. Bydd y Cynllun hefyd yn gwella cysylltiadau rhwng mewnwelediad cleifion a'r cyhoedd — drwy Llais — a chyrff iechyd, gan sicrhau bod profiad bywyd yn llywio gwelliant diogelwch ar bob lefel. Yn ogystal, bydd rheoleiddwyr yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gryfhau diogelwch cleifion ar draws y system gofal iechyd drwy arolygu a goruchwylio cymesur sy'n seiliedig ar risg. O ystyried y pwysau presennol ar y gweithlu, y galw cynyddol a'r cyfyngiadau ariannol, bydd y Cynllun yn cael ei gyflawni fesul cam. Mae'r dull graddol hwn yn sicrhau y gellir gweithredu camau blaenoriaeth yn gyflym tra bod camau dilynol yn cael eu cyd-gynllunio a'u trefnu mewn dilyniant gyda staff, cleifion a phartneriaid. Mae'n Gynllun pragmatig ond sy'n edrych ymlaen — mae'n un sy'n mynd i'r afael â heriau heddiw wrth osod y sylfaen ar gyfer system iechyd wydn, sy'n dysgu ar gyfer yfory.

Gall sbectrwm eang o niwed ddigwydd pan nad yw gofal yn ddiogel — nid anaf corfforol yn unig ond hefyd niwed seicolegol, ariannol a chymdeithasol. Yn aml, y cleifion eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i ddiffinio niwed a mynegi ei effaith. Mae pob math o niwed y gellir ei osgoi yn bwysig ac mae'r Cynllun hwn wedi'i gynllunio i ategu'r gwaith o greu amgylcheddau gofal iechyd sy'n wirioneddol ddiogel.

Yn 2023–24, derbyniodd cyrff iechyd Cymru £114.6 miliwn mewn ad-daliadau am hawliadau ac iawndal yn gysylltiedig â gofal anniogel neu o ansawdd gwael, gyda'r niferoedd uchaf yn deillio o wasanaethau mamolaeth, adrannau brys a thrawma ac orthopaedeg[7]. Mae'r baich ariannol hwn yn darparu gorchymyn pwerus ar gyfer gwelliant ar draws y system a newid diwylliannol — gan sicrhau bod darparu gofal iechyd ledled Cymru yn parhau i fod yn fwy diogel ac yn fwy effeithiol. Mae'n adlewyrchu nid yn unig y gost ariannol o niwed y gellir ei osgoi ond hefyd y straen a roddir ar adnoddau GIG Cymru — adnoddau y gellid eu buddsoddi fel arall mewn gwasanaethau rheng flaen, staffio, offer, neu arloesi.

7 Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (2025) Adolygiad Blynyddol Cronfa Risg Cymru a Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg 2024–2025

# 2. Nod y Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol

Mae Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol yn gam hollbwysig wrth gryfhau ein system gofal iechyd. Y nod yw:

**Gwrando, arwain a dysgu er mwyn gofal mwy diogel yng Nghymru.**

Cyflawnir hyn drwy dri philer sylfaenol sy'n rhedeg yn gyson drwyddi draw ac yn llunio cyfeiriad y Cynllun:

| | |
|---|---|
| **Gwrando** | Mae gwrando yn mynd y tu hwnt i glywed — mae'n chwyddo lleisiau cleifion, staff a phartneriaid er mwyn llunio gofal mwy diogel. Mae ymgorffori cyd-gynhyrchu yn sicrhau bod profiadau byw a phrofiadau a ddysgwyd yn sbarduno gwelliannau ystyrlon. Drwy ganolbwyntio ar atal, mynd i'r afael â niwed ac anghydraddoldebau'n gynnar a chreu dolenni adborth tryloyw, mae'r dull hwn yn meithrin ymddiriedaeth, yn cryfhau perthnasoedd ac yn sicrhau bod y system gofal iechyd yn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. |
| **Arweinyddiaeth** | Mae arweinyddiaeth weladwy ac atebol yn gwneud diogelwch cleifion yn flaenoriaeth strategol graidd. Mae arweinwyr yn creu systemau a diwylliannau sy'n meithrin tryloywder, dysgu a dibynadwyedd, gan rymuso timau amlddisgyblaethol i nodi risgiau, gweithredu'n gyflym ac atal niwed drwy welliant parhaus. |
| **Dysgu** | Defnydd rhagweithiol a systematig o fewnwelediadau a data amser real — ynghyd â myfyrio ar y cyd — i ysgogi'r gwaith o ailgynllunio systemau gofal iechyd yn barhaus, meithrin tryloywder ac adborth a chyd-greu gwelliannau ym maes diogelwch. Ymgorffori dull dysgu sydd nid yn unig yn canfod gwallau ac yn gweithredu camau cywirol, ond sydd hefyd yn ymgorffori dysgu parhaus, ar y cyd ac ar draws y system, sy'n ymgorffori diogelwch mewn arfer gofal iechyd bob dydd. |

Canfu'r National State of Patient Safety (2024) y gellid bod wedi osgoi 13,495 o farwolaethau yn 2023 pe bai'r DU yn cyfateb i'r 10% uchaf o wledydd yr OECD (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd)[8]. Yn 2022, roedd y ffigur hwn yn 12,675 o farwolaethau. Bydd ffocws ar y cyd ar y tri philer sylfaenol yn creu system iechyd unedig, sy'n dysgu ac sy'n lleihau niwed y gellir ei osgoi yn ddi-baid, yn cryfhau diwylliant diogelwch ac yn darparu gofal diogel, effeithiol a chyfartal yn gyson i bob person yng Nghymru. Bydd hyn yn cyfrannu at ostyngiad mewn marwolaethau mewn ysbytai, a ddangosir drwy Fynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg (RAMI) Cymru Gyfan a Chyfraddau Bras Marwolaethau, cynnydd yn nifer y dyddiau o ofal diogel a ddarperir rhwng digwyddiadau "byth" a gwella sgoriau profiad cyffredinol cleifion. Sicrhau bod pobl Cymru yn cael eu rhoi yn gyntaf – heddiw ac yfory.




8 Illingworth J, Fernandez Crespo R, Hasegawa K, Leis M, Howitt P, Darzi A (2024) **The National State of Patient Safety 2024: Prioritising improvement efforts in a system under stress.** Imperial College London.

# 3. Pam Rydym yn Cymryd Camau Gweithredu

**Mae cyfeiriad strategol cenedlaethol GIG Cymru wedi'i nodi yn Cymru Iachach[9], sef y strategaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Yn 2020, cyflwynodd y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)[10] y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023. Fodd bynnag, mae bwlch yn parhau rhwng y dyletswyddau statudol hyn a'r ddarpariaeth o wasanaethau, gan nad oes cynllun cenedlaethol sy'n diffinio'r camau diogelwch i ategu'r dyletswyddau.**

Mae'r Cynllun hwn wedi'i seilio ar y Ddyletswydd Ansawdd a'r ffocws ar ansawdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015[11], Mae'n dyrchafu diogelwch cleifion— sy'n elfen hanfodol o ansawdd—fel blaenoriaeth gyfreithiol a gweithredol. Mae hefyd yn cefnogi ac yn cyd-fynd â Fframwaith Llywodraethu Clinigol GIG Cymru (2026) Llywodraeth Cymru, sy'n disgrifio'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn ddiogel, o ansawdd uchel yn gyson, ac yn cyd-fynd â safonau cenedlaethol. Bydd y fframwaith yn cefnogi dealltwriaeth gyffredin o lywodraethu clinigol ar draws GIG Cymru ac yn darparu sail ar gyfer adolygu sefydliadau a threfniadau system y GIG yn erbyn safon genedlaethol.

9 Llywodraeth Cymru (2021) Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

10 Senedd Cymru (2020) Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

11 Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn yr un modd, mae Fframwaith Rhagoriaeth Glinigol Cenedlaethol (NCEF) amlbroffesiynol yn ategu'r Cynllun a'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol drwy gynnig dull cyson yn genedlaethol o ddangos tystiolaeth o ragoriaeth, cefnogi tryloywder, dysgu a gwelliant ar draws GIG Cymru.

Yn y pen draw, rhaid i GIG Cymru leihau niwed ar lefel y boblogaeth drwy symudiad hirdymor tuag at waith atal. Mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â lle mae'r risgiau uchaf, y pwysau mwyaf a'r cyfleoedd mwyaf brys i wella ansawdd a diogelwch cleifion ar hyn o bryd. Mae'r camau gweithredu'n targedu diogelwch cleifion ar draws y continwwm gofal - o waith atal i ofal diwedd oes - ac ar draws gofal sylfaenol, cymunedol, eilaidd a chymdeithasol i sicrhau camau gweithredu cydlynol sydd, gyda'i gilydd, yn gwella diogelwch cleifion. Mae'r Cynllun yn ceisio gweithio ochr yn ochr â dull Cymunedol o'r Cychwyn GIG Cymru a'i ategu i ailgynllunio gwasanaethau iechyd a gofal fel bod llawer mwy o ofal yn cael ei ddarparu'n nes at y cartref, mewn lleoliadau cymunedol, fel bod y ddwy fenter gyda'i gilydd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau diogelwch cleifion uniongyrchol acíwt a niwed a thrawsnewidiad tymor hwy ar lefel y boblogaeth.

Mae GIG Cymru yn wynebu heriau system sylweddol, gan gynnwys pwysau ar wasanaethau, ôl-groniadau o ran ymchwiliadau, digwyddiadau diogelwch cleifion parhaus a niwed sy'n deillio o oedi o ran arbenigeddau a llwybrau - ac yn y pen draw diffyg llif cleifion.

Mae tystiolaeth o ddysgu ar draws y system yn gyfyngedig, ac nid yw Cymru wedi diffinio model gweithredu cenedlaethol na chynllun ar gyfer diogelwch eto. O ganlyniad, mae ymatebion yn adweithiol i raddau helaeth, yn canolbwyntio ar gydymffurfio ac ymchwilio, gyda fawr ddim pwyslais ar ddysgu rhagweithiol. Mewn gofal sylfaenol, mae risgiau diogelwch yn aml yn codi nid o ddigwyddiadau niferus ond o amodau system - megis pwysau o ran mynediad, parhad gofal, ansicrwydd diagnostig, rheoli meddyginiaethau a gwydnwch y gweithlu. Nid yw'r mathau hyn o niwed yn dod i'r amlwg yn rhwydd mewn setiau data digwyddiadau traddodiadol, ond maent yn ganolog i atal niwed y gellir ei osgoi yn gynharach yn y llwybr.

Mae diffyg seilwaith digidol integredig yn gwaethygu'r heriau hyn, gan greu rhwystrau wrth rannu data yn amserol, rheoli risg yn rhagweithiol a thryloywder ar draws y system. Mae cysylltedd digidol wedi'i leoli fel galluogwr craidd sy'n darparu data amser real a systemau integreiddio data gwell i gefnogi gwneud penderfyniadau rhagweithiol. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r weledigaeth a nodir yn Cymru Iachach, gan sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio i hyrwyddo cydraddoldeb, gwella gallu staff a chryfhau cydnerthedd ar draws y system gofal iechyd.

Gyda'i gilydd, mae'r holl ffactorau uchod yn tynnu sylw at gyfle clir i sefydlu system diogelwch cleifion sydd wedi'i halinio'n genedlaethol, sy'n cydbwyso cydymffurfiaeth â gwelliant rhagweithiol ac sy'n meithrin diwylliant o ddysgu a gwydnwch — sef dull sydd eisoes yn dechrau dod i'r amlwg drwy'r Asesiad Sicrwydd Mamolaeth a Newyddenedigol Cenedlaethol diweddar.



# 4. Ein Blaenoriaethau Diogelwch Clinigol Cenedlaethol

**Bydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn darparu cefnogaeth genedlaethol i wella canlyniadau mewn blaenoriaethau diogelwch clinigol cenedlaethol strategol a nodwyd gan y system gofal iechyd a Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol, a hynny yn rhan o ddull system gyfan.**

Mae blaenoriaethau diogelwch clinigol cenedlaethol yn cael eu nodi drwy driongli dadansoddiad rhagweithiol sy'n seiliedig ar ddata, ymatebion adweithiol i ddigwyddiadau a mewnwelediadau ansoddol gan wasanaethau, yn ogystal ag arwyddion system ehangach o ofal sylfaenol a chymunedol, lle mae risg yn amlygu'n wahanol a gallent ofyn am fonitro ar lefel y boblogaeth yn hytrach na dadansoddiad ar lefel digwyddiad.. Mae'r sail dystiolaeth yn cynnwys adrodd ar ddigwyddiadau a data lefel niwed, gwybodaeth gwyliadwriaeth o System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru (OfWCMS), a dadansoddiad o ddigwyddiadau, hawliadau a gwneud iawn mewn perthynas â diogelwch cleifion yn unol â Gweithio i Wella.

Mae triongli ffynonellau yn nodi risgiau a phroblemau diogelwch cleifion systemig ac yn annog dysgu. Bydd strwythurau llywodraethu cenedlaethol, gyda goruchwyliaeth briodol, yn pennu ac yn cytuno ar y blaenoriaethau. Bydd cynnydd yn cael ei gofnodi drwy fesurau STEEEP yn y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, PROMS a PREMS presennol ac, yn y pen draw, yn Fframwaith Canlyniadau Iechyd GIG Cymru.

Mae canolbwyntio ar nifer wedi'i thargedu o flaenoriaethau diogelwch cleifion yn galluogi Cymru i gyflawni gwelliant ystyrlon ar draws y system, er gwaethaf adnoddau cyfyngedig. Mae'n canolbwyntio sylw arweinyddiaeth, cyllid ac ymdrechion gwella ar y meysydd sy'n achosi'r niwed mwyaf, gan leihau gwaith tameidiog a blinder mentrau. Mae blaenoriaethau cenedlaethol clir yn caniatáu alinio cyflymach ar draws polisi ac arfer, yn cefnogi mesur a dysgu gwell ac yn gwneud nodau diogelwch yn haws i'r system gofal iechyd a'r cyhoedd, fel ei gilydd, eu deall. Mae llwyddiant cynnar yn y meysydd hyn yn meithrin gallu, hyder a seilwaith, gan greu sylfaen gref ar gyfer gwelliant cynaliadwy ac ehangu ymdrechion diogelwch cleifion yn y dyfodol.

Dynodir maes yn flaenoriaeth diogelwch clinigol genedlaethol pan fydd tystiolaeth gadarn yn dangos bod angen ymateb strategol, amlasiantaethol, cydlynol, sy'n ddwys o ran adnoddau. Mae hyn yn cynnwys arwyddion o:

- niwed effaith uchel posibl neu wirioneddol
- canlyniadau sy'n allanolion o'u cymharu â gwledydd tebyg
- costau ymgyfreitha sylweddol neu gynyddol
- methiant systemig a nodweddir gan broblemau parhaus, ac eang
- risg neu aflonyddwch parhaus, ac eang i'r cyhoedd.

## Blaenoriaethau Diogelwch Clinigol Cenedlaethol

- Mae **dirywiad corfforol acíwt** yn parhau i fod yn bryder diogelwch sylweddol, yn enwedig pan nad yw sepsis yn cael ei atal, ei gydnabod na'i drin yn brydlon. Mae oedi wrth adnabod ac uwchgyfeirio problemau yn cyfrannu at niwed y gellir ei osgoi a mwy o bwysau ar wasanaethau ysbytai. Bydd rhoi'r fenter Call4Concern ar waith ar draws GIG Cymru yn darparu llwybr ychwanegol ar gyfer uwchgyfeirio cynnar, gan alluogi ymyriad prydlon pan fo amheuaeth o ddirywiad. Bydd hyn yn cael ei ategu gan fwy o ffocws ar sepsis.
- Mae **datgyflyru yn y gymuned**, yn enwedig i bobl sy'n byw gydag eiddilwch, yn cynyddu'r risg o gwympo a derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi. Ar ôl iddynt gyrraedd gofal eilaidd, mae'r unigolion hyn yn aml yn dirywio ymhellach, sy'n arwain at arosiadau hirach a mwy o bwysau ar wasanaethau ysbyty. Mae mynd i'r afael â datgyflyru'n gynnar yn y gymuned yn allweddol i leihau niwed y gellir ei atal a'r galw ar ofal eilaidd.
- Mae **heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAIs)** yn parhau i fod yn her barhaus i ddiogelwch cleifion yn GIG Cymru, gydag amrywiad mewn arferion atal, stiwardiaeth gwrthficrobaidd a safonau amgylcheddol yn cynyddu'r risg o niwed y gellir ei osgoi. Mae pwysau ar staffio, ystadau a'r gallu i ynysu cleifion yn cyfyngu ymhellach ar y gallu i gynnal rheolaeth gyson ar heintiau. Mae cryfhau mesurau atal craidd a sicrhau systemau mwy dibynadwy ar gyfer gwyliadwriaeth ac ymateb yn hanfodol i leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a gwella canlyniadau cleifion.
- **Mae gwella diogelwch mewn gwasanaethau iechyd meddwl gofal eilaidd** yn parhau i fod yn heriol, gyda mesur diogelwch anghyson ac amrywiad mewn ymarfer ar draws lleoliadau cleifion mewnol a chymunedol. Bydd cryfhau'r defnydd o fetrigau diogelwch clir a chanlyniadau a adroddir gan gleifion fel ReQoL yn galluogi gofal mwy ymatebol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn darparu sicrwydd cryfach o ddiogelwch, wedi'i lywio gan dystiolaeth a safonau proffesiynol cenedlaethol.
- **Pobl ag anabledd dysgu a niwrowahaniaeth** yng Nghymru yn parhau i wynebu mynediad anghyfartal at ofal a chanlyniadau gwaeth, gyda rhwystrau systemig parhaus yn cael eu hamlygu gan adolygiadau cenedlaethol. Mae teuluoedd hefyd yn adrodd am gyfathrebu anghyson ac ansawdd gwasanaethau amrywiol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Dengys yr heriau hyn yr angen parhaus am welliant mwy cydlynol, sy'n canolbwyntio ar unigolion, er mwyn sicrhau gwasanaethau mwy diogel, tecach a mwy ymatebol ar draws GIG Cymru.

- Mae **gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol** yn wynebu heriau diogelwch parhaus. Nododd yr asesiad diweddar o'r system gyfan lwybrau brysbennu a phrysuro'r geni anghyson, pwysau ar y gweithlu a bylchau mewn cymorth ôl-enedigol a newyddenedigol. Mae'r gwendidau hyn yn effeithio ar ansawdd a dibynadwyedd y gofal a brofir gan fenywod, babanod a theuluoedd ledled Cymru. Mae cryfhau systemau diogelwch clinigol hanfodol a sicrhau modelau gofal mwy cyson yn hanfodol i wella canlyniadau.

## Maes i'w ddatblygu:

- **Mae diogelwch meddyginiaethau** yn parhau i fod yn her sylweddol yn GIG Cymru, gydag amrywiad o ran rhagnodi, monitro a gweinyddu yn cyfrannu at niwed y gellir ei osgoi ar draws gwasanaethau. Mae cymhlethdod clinigol cynyddol a symud o un lleoliad gofal i un arall yn aml yn cynyddu'r risg o wallau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth ac anghenion therapiwtig heb eu diwallu. Mae cryfhau systemau ar gyfer rhagnodi a monitro mwy diogel yn hanfodol, ac mae diogelwch meddyginiaethau yn faes blaenoriaeth cenedlaethol sy'n datblygu ac sydd angen ffocws pellach a gwelliant cydlynol.

Bydd pob maes blaenoriaeth yn cynnwys ffocws ar y canlynol:

- cysylltu â rhaglenni gwaith cenedlaethol presennol ac adeiladu arnynt
- diwylliant diogelwch gyda dull gwrando a dysgu Diogelwch I a Diogelwch II
- cyd-gynhyrchu a chynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd a phrofiad a ddysgwyd
- Safoni a glynu wrth arferion da (e.e. Datganiadau Ansawdd, Canllawiau NICE)
- camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau iechyd a haenu data i ddangos tystiolaeth o effaith
- profiad a chanlyniadau i bobl Cymru
- dull system gyfan sy'n cysylltu ar draws gofal sylfaenol, eilaidd, cymunedol a chymdeithasol i gyflawni newid hunangynhaliol
- gwelliannau wedi'u targedu ar draws y continwwm gofal o waith atal i ofal diwedd oes
- lens ar amddiffyn a diogelu'r cyhoedd
- y System Rheoli Ansawdd genedlaethol a lleol i ymgorffori a chynnal gwelliannau
- gwerthusiad economaidd o ymyriadau

Mae'r blaenoriaethau wedi'u gosod am o leiaf 3 blynedd, gydag uchafswm o 6 blaenoriaeth ar un adeg er mwyn galluogi dull ymatebol o ymdrin ag anghenion a thystiolaeth y system sy'n newid. Bydd strwythurau llywodraethu cenedlaethol yn monitro'r cyflawniad yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, a byddant yn gyfrifol am osod blaenoriaethau'r dyfodol. Bydd meysydd clinigol yn parhau i fod yn flaenoriaeth genedlaethol nes bod data o fewn y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd, ac yn y pen draw'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd, yn dangos gostyngiad cynaliadwy mewn amrywiad diangen a darpariaeth gyson o ofal o ansawdd uchel.


# 5. Cryfhau Diogelwch Cleifion ar Draws y System ledled Cymru

Mae gofal mwy diogel yn dibynnu ar ddull cydlynol sy'n cysylltu cynllunio, darparu a sicrwydd ar draws y system gofal iechyd gyfan. Mae ffordd glir a chyson o weithio yn hanfodol er mwyn sicrhau bod diogelwch cleifion wedi'i wreiddio ym mhob rhan o GIG Cymru. Bydd cryfhau cysylltedd cenedlaethol drwy fodel gweithredu a rennir yn cefnogi sefydliadau i ddarparu gofal diogel a dibynadwy. Rhaid i ddull system gyfan gryfach adlewyrchu'r gwahanol fodelau sefydliadol a chytundebol ar draws y GIG. Bydd hyn yn sicrhau bod diogelwch ymarfer cyffredinol, fferylliaeth gymunedol, optometreg a gwasanaethau deintyddol yn rhan annatod o'r system diogelwch cleifion genedlaethol, gyda Byrddau Iechyd yn parhau i sicrhau ansawdd a diogelwch i gontractwyr o bob proffesiwn.

System Rheoli Ansawdd (QMS) yw'r sylfaen ar gyfer rheoli ansawdd mewn gofal iechyd, fel y disgrifir yn y Ddyletswydd Ansawdd, ac mae QMS ar gyfer Diogelwch Cleifion yn darparu'r sylfaen i reoli diogelwch cleifion yn genedlaethol er mwyn gwella diogelwch gofal yn GIG Cymru. Mae'n dwyn ynghyd bedair elfen allweddol, a ddangosir yn Ffigur 1 isod:

- **Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cleifion —** gosod nodau clir ar gyfer diogelwch ac ansawdd.
- **Gwella Diogelwch Cleifion —** gwneud newidiadau sy'n arwain at ofal gwell.
- **Rheolaeth ar gyfer Diogelwch Cleifion —** gwirio bod safonau'n cael eu bodloni bob dydd.
- **Sicrwydd Diogelwch Cleifion —** rhoi hyder bod gofal yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Ffigur 1: System Rheoli Ansawdd ar gyfer Diogelwch Cleifion**




Pan fydd yr elfennau hyn yn gweithio gyda'i gilydd, byddant yn creu fframwaith cryf ar gyfer darparu gofal diogel o ansawdd uchel. Mae Atodiad 2 yn rhoi rhagor o fanylion am gydrannau craidd pob agwedd ar y System Rheoli Ansawdd ar gyfer Diogelwch Cleifion.

Ar hyn o bryd, gall dysgu a gwybodaeth fod yn dameidiog, sy'n arafu gwelliant ac yn creu amrywiad mewn safonau diogelwch. Mae System Rheoli Ansawdd ar gyfer Diogelwch Cleifion yn darparu un dull integredig sy'n cysylltu adborth gan gleifion, staff a phartneriaid â data a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae hyn yn golygu y gellir nodi a datrys problemau'n gyflym a gellir rhannu arferion llwyddiannus ar draws y system.

Mae hefyd yn sicrhau nad yw diogelwch yn cael ei drin fel gweithgaredd ynysig ond fel rhan o ofal bob dydd. O fewn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS), mae'r Fframwaith Sicrwydd Contractau (CAF) eisoes yn gweithredu fel y System Rheoli Ansawdd ar gyfer GMS. Mae cydnabod CAF yn benodol o fewn y System Rheoli Ansawdd genedlaethol yn rhoi cysondeb, yn atal dyblygu ac yn cefnogi dull system gyfan o ddiogelwch ar draws gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a gwasanaethau a ddarperir gan gontractwyr.

Bydd System Rheoli Ansawdd ar gyfer Diogelwch Cleifion yn gwneud gofal yn fwy diogel drwy ymgorffori diogelwch cleifion ym mhob penderfyniad a phroses. Mae'n creu diwylliant o ddysgu parhaus, wedi'i gefnogi gan adborth amser real ac atebolrwydd clir. Bydd yn helpu i atal niwed, lleihau amrywiad a gwella hyder cleifion a staff. Drwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf, gall sefydliadau wella eu systemau a'u ffyrdd o weithio, gan arwain at brofiadau a chanlyniadau gwell i bawb. Mae Atodiad 3 yn nodi'r System Rheoli Ansawdd Genedlaethol gyfredol ar gyfer Diogelwch Cleifion, ac mae camau gweithredu yn Adran 6 o'r cynllun yn ceisio symleiddio a chryfhau'r System Rheoli Ansawdd a'r strwythur llywodraethu presennol er mwyn galluogi system diogelwch cleifion genedlaethol sy'n dysgu, sy'n gwella ac sy'n darparu gofal mwy diogel i bawb yn barhaus. Mae Fframwaith System Rheoli Ansawdd GIG Cymru yn sail i'r dull hwn.

Mae'r dull rheoli ansawdd o ran diogelwch cleifion yn cyd-fynd â llywodraethu clinigol effeithiol drwy ganolbwyntio ar effeithiolrwydd, ymchwil, archwilio, y gweithlu, diwylliant, rheoli risg, defnydd effeithiol o wybodaeth, hyfforddiant ac addysg staff. Fe'i cefnogir gan arweinyddiaeth effeithiol ac mae'n rhoi'r claf wrth wraidd gofal diogel o ansawdd uchel.

Mae trosi System Rheoli Ansawdd ar gyfer Diogelwch Cleifion yn ymarfer ar lefel genedlaethol a sefydliadol yn trawsnewid ymdrechion gwella yn system strwythuredig ac integredig sy'n sicrhau dibynadwyedd ac yn ymgorffori dysgu parhaus ar draws pob gwasanaeth. Mae'r dull wedi'i brofi gan sefydliadau fel Ymddiriedolaeth Sefydledig Dwyrain Llundain (ELFT) sydd, ers 2013, wedi manteisio ar gyfres o ddigwyddiadau diogelwch i bwysleisio'r angen i ymgorffori'r angen am newid sefydliadol sylfaenol. Mae hyn wedi arwain at effaith megis gostyngiad o 30% mewn trais corfforol cleifion mewnol, a gostyngiad o 50% mewn digwyddiadau o ymosodedd geiriol[12]. Yn Ymddiriedolaeth Sefydledig Dwyrain Llundain, ni ddaeth y gwelliannau hyn mewn diogelwch cleifion o un ymyrraeth yn unig, ond o ymgorffori ansawdd yn y ffordd y cafodd y sefydliad ei arwain, ei fesur a'i reoli.

Yn yr un modd, lleddfodd GIG Swydd Lanark y pwysau mewn Adrannau Argyfwng drwy ddull Ansawdd System Gyfan a ymgorfforwyd ar bob cyfle wrth geisio sicrhau gofal gwell a mwy diogel[13]. Datblygodd Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Addysgu Leeds y Dull Gwella Leeds i symud o sicrhau ansawdd i ddull System Rheoli Ansawdd cyfannol, a arweiniodd at welliannau mesuradwy megis llai o ganslo llawdriniaethau a systemau ailgylchu meddyginiaethau gwell[14].

Mae datblygu system rheoli ansawdd yn gwella diogelwch cleifion drwy wneud ansawdd a diogelwch yn eiddo i'r system yn hytrach nag yn gyfrifoldebau unigol. Mae profiad y sefydliadau a grybwyllir uchod yn dangos y gall sefydliadau gofal iechyd gyflawni gostyngiadau cynaliadwy mewn niwed a gwella diogelwch gofal yn barhaus pan fydd arweinyddiaeth, data, diwylliant a gallu wedi'u halinio drwy System Rheoli Ansawdd.

12 Sefydliad Gwella Gofal Iechyd (2026) Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Dwyrain Llundain: Building a Culture of Improvement
13 Y Sefydliad Iechyd (2025) Developing whole-organisation Quality Management Systems in health care: learning from practice and recommendations for progress
14 Y Sefydliad Iechyd (2025) Developing whole-organisation Quality Management Systems in health care: learning from practice and recommendations for progress



# 6. Y Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol Pum Mlynedd

**Mae chwe galluogwr wedi'u cydnabod fel rhai hanfodol i sicrhau diogelwch cleifion ledled GIG Cymru. Maent yn gweithredu fel sbardunau sylfaenol ar gyfer newid ac maent wedi'u halinio â'r Galluogwyr Ansawdd a amlinellir yn y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn y Ddyletswydd Ansawdd.**

Mae'r galluogwyr hyn yn cynrychioli'r meysydd lle mae'r angen a'r cyfle mwyaf i wella diogelwch cleifion ac yn cefnogi'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun pum mlynedd hwn. Maent yn sail i'r pileri sylfaenol Gwrando, Arwain a Dysgu.

Disgrifir pob galluogwr isod, wedi'i gefnogi gan ddarlun lefel uchel a'r Cynllun manwl. Mae'r disgrifwyr a'u camau gweithredu yn ganlyniad ymchwil ar draws strategaethau diogelwch cleifion rhyngwladol a chenedlaethol, cymhariaeth ag adolygiadau ac asesiadau mawr ledled y DU ac yn fyd-eang, dadansoddiad bwlch o system diogelwch cleifion Cymru a chyd-ddylunio gyda GIG Cymru a Llywodraeth Cymru (Gweler Atodiad 1).

## Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth weladwy, gysylltiedig ac atebol yn hanfodol ar gyfer gosod disgwyliadau, alinio'r system gofal iechyd a modelu diwylliant o ddiogelwch cleifion sy'n gwrando ac yn dysgu. Drwy feithrin diwylliant lle mae arweinwyr ar bob lefel yn hyrwyddo diogelwch cleifion, yn cymryd perchnogaeth o ganlyniadau ac yn hyrwyddo diwylliant cyfiawn, caiff ymddiriedaeth ei hadeiladu ledled y sefydliad, gan arwain yn y pen draw at ganlyniadau gofal iechyd mwy diogel. Mae arweinwyr yn deall y rôl hanfodol y mae profiad staff yn ei chwarae wrth ddarparu gofal diogel ac yn sicrhau bod eu harweinyddiaeth yn cefnogi hyn.

## Y Gweithlu

Mae gweithlu gwydn, medrus a hyderus yn ddigidol yn hanfodol ar gyfer darparu gofal diogel, effeithlon a chyson. Mae datblygu a chynnal gweithlu o'r fath yn sicrhau bod staff yn cael eu grymuso a'u cefnogi i ddarparu gofal o ansawdd uchel, a'u bod wedi'u cyfarparu â'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol am ddiogelwch cleifion i weithredu'n effeithiol ar bob lefel, nawr ac yn y dyfodol. Mae staffio amlddisgyblaethol ar draws GIG Cymru yn hanfodol er mwyn cynnal gofal cleifion diogel yn gyson.

## Diwylliant

Mae diwylliant diogelwch cleifion cadarnhaol a chyfiawn yn hanfodol er mwyn darparu gofal iechyd diogel o ansawdd uchel. Mae creu a chynnal diwylliant o'r fath yn golygu meithrin amgylchedd lle mae dysgu a bod yn agored ac yn deg yn norm. Mae'n hyrwyddo diogelwch seicolegol, gwarineb, cynhwysiant a dysgu parhaus, gan rymuso'r holl staff i siarad dros ddiogelwch cleifion a sicrhau bod profiadau byw a phrofiadau a ddysgwyd yn llywio gwelliannau mewn gofal. Mae diwylliant diogelwch cleifion cadarnhaol a chyfiawn yn hanfodol i ddarparu gofal iechyd diogel o ansawdd uchel sy'n lleihau niwed ac anghydraddoldebau.

## Gwybodaeth a Mewnwelediadau

Mae data amserol a chywir yn hanfodol ar gyfer atal niwed y gellir ei osgoi a gwella ansawdd gofal iechyd. Mae datblygu a chynnal system wybodaeth integredig, amser real yn grymuso timau gofal iechyd drwy ddarparu offer cadarn er mwyn casglu, mesur, dadansoddi a rhannu data diogelwch cleifion yn effeithiol. Drwy driongli mesurau meintiol ac ansoddol o berfformiad, profiad a chanlyniadau, mae'r system yn cefnogi gwelliant parhaus, gan gwmpasu dulliau Diogelwch I traddodiadol a'r persbectif Diogelwch II rhagweithiol ehangach.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Rhaid i system gofal iechyd sydd wedi ymrwymo i ddiogelwch cleifion ddysgu'n barhaus o brofiad, ymchwil, archwiliadau a data. Mae sefydlu system ddysgu ddeinamig yn galluogi'r gwaith o drosi mewnwelediadau yn weithredu'n gyflym, gan gysylltu galluoedd gwella cenedlaethol â blaenoriaethau diogelwch cleifion wrth dynnu ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae hyn yn cefnogi system ddysgu diogelwch cleifion sy'n sbarduno gwelliant parhaus ac yn hyrwyddo ymchwil a datblygu ar draws y gweithlu.

## Dull Systemau Cyfan

Mae dull systemau cyfan yn sicrhau gwelliannau cyson a chydlynol i ddiogelwch cleifion ar draws gofal iechyd, gan leihau amrywiad mewn canlyniadau. Mae gweithredu dull System Rheoli Ansawdd (QMS) cenedlaethol yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer diogelwch cleifion, y gellir ei hefelychu ar lefel leol a sefydliadol, gan gefnogi safonau unffurf a gwelliant parhaus ledled y system gofal iechyd.

**Ffigur 2: Crynodeb o'r Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol Pum Mlynedd**

**2026—2031**

| Galluogwr | Amcan | Effaith |
|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth**<br>Arweinyddiaeth weladwy, gysylltiedig ac atebol yn gosod disgwyliadau, yn alinio'r system gofal iechyd ac yn modelu diwylliant o ddiogelwch cleifion | • Eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth diogelwch cleifion ar lefel genedlaethol<br>• Strwythur llywodraethu diogelwch cleifion cadarn ar lefel genedlaethol | Arweinyddiaeth wedi'i chydgysylltu'n genedlaethol ac atebolrwydd clir yn ysgogi system diogelwch cleifion gyson ac uchel ei pherfformiad ar draws GIG Cymru — gan leihau risg, cryfhau sicrwydd, a throi polisi yn gamau ymarferol ar draws y system |
| **Y Gweithlu**<br>Mae gweithlu gwydn, medrus, a hyderus yn ddigidol yn hanfodol ar gyfer darparu gofal diogel, effeithlon a chyson | • Sgiliau a gwybodaeth am ddiogelwch cleifion yn y gweithlu i ymgymryd â'u rolau ar bob lefel<br>• Staffio amlddisgyblaethol ar draws GIG Cymru sy'n sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu i gleifion yn gyson | Diwylliant diogelwch unedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws GIG Cymru — gan drosi mewnwelediadau o'r byd go iawn gan gleifion a staff yn gamau gweithredu, cryfhau tegwch a galluogi gweithlu medrus i ddarparu gofal diogel |
| **Diwylliant**<br>Mae diwylliant diogelwch cleifion cadarnhaol a chyfiawn yn hanfodol i ddarparu gofal iechyd diogel o ansawdd uchel | • Diwylliant sy'n hyrwyddo diffuantrwydd, ymddiriedaeth, gwarineb, dysgu ac ymddygiadau cynhwysol<br>• Pob aelod o staff wedi'i rymuso i siarad dros ddiogelwch cleifion, gan ddyrchafu lleisiau'r rhai â phrofiad byw a phrofiad a ddysgwyd | Diwylliant diogelwch cyson sy'n seiliedig ar werthoedd, lle mae staff yn teimlo'n ddiogel i leisio'u barn, dysgu a chydweithio — gan feithrin ymddiriedaeth, lleihau niwed a gwneud diogelwch cleifion yn gyfrifoldeb a rennir o ddydd i ddydd ar draws GIG Cymru. |
| **Gwybodaeth a Mewnwelediadau**<br>Mae data amserol a chywir yn hanfodol ar gyfer atal niwed y gellir ei osgoi a gwella ansawdd gofal iechyd | • Systemau cadarn sy'n galluogi casglu, mesur, dadansoddi a rhannu data a gwybodaeth diogelwch cleifion yn effeithiol<br>• Triongli mesurau perfformiad, profiad a chanlyniadau meintiol ac ansoddol i lywio gwelliant yn y system | Mae golwg unedig a thryloyw ar ganlyniadau ansawdd a diogelwch yn galluogi meincnodi, canfod risgiau'n gynnar, dysgu'n gyflym a safonau gofal cyson, gan dargedu ymyraethau lle mae ganddynt yr effaith fwyaf. |
| **Dysgu, Gwella ac Ymchwil**<br>Rhaid i system gofal iechyd sydd wedi ymrwymo i ddiogelwch cleifion ddysgu'n barhaus o brofiad, ymchwil, archwiliadau a data | • Gallu gwella cenedlaethol wedi'i alinio â blaenoriaethau diogelwch cleifion<br>• System ddysgu diogelwch cleifion sy'n cefnogi gwelliant parhaus<br>• Ymchwil a datblygu diogelwch cleifion yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi ledled y gweithlu | System ddysgu ragweithiol a seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cysylltu cynllunio â gwelliant, yn atal digwyddiadau ailadroddus ac yn cyflymu enillion diogelwch cyson a than arweiniad ymchwil ar draws GIG Cymru — gan droi data yn fewnwelediad cyflym i aros ar flaen y gad o ran risgiau a gwella canlyniadau. |
| **Dull Systemau Cyfan**<br>Mae dull systemau cyfan yn sicrhau gwelliannau cyson a chydlynol i ddiogelwch cleifion ar draws gofal iechyd | • Gweledigaeth genedlaethol am System Rheoli Ansawdd ar gyfer Diogelwch Cleifion, y gellir ei hatgynhyrchu ar lefel sefydliadol | Ymrwymiad system gyfan at gynllun diogelwch cleifion unedig sy'n lleihau niwed, yn gwella dibynadwyedd ac yn galluogi cydweithio cryfach — gan wneud diogelwch cleifion yn flaenoriaeth strategol a rennir ar draws pob sefydliad |

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol Pum Mlynedd. Mae rhai o gamau Cyfnod 1 eisoes ar y gweill a byddant yn parhau i gael eu datblygu a'u hymgorffori yn y system gofal iechyd.

Bydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn arwain yr holl gamau gweithredu, mewn partneriaeth â sefydliadau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau. Mae cynllun gweithredu mewnol Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu hyn.

## Arweinyddiaeth

| Amcan | Cam Gweithredu | Effaith | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| 1. Eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth diogelwch cleifion ar lefel genedlaethol. | 1.1 Sefydlu Tîm Diogelwch Cleifion Cenedlaethol, gyda disgrifiadau rôl clir, ffyrdd cytunedig o weithio a chysylltedd cryf ar draws GIG Cymru. | Arweinyddiaeth gydlynol, canllawiau awdurdodol a sicrwydd cadarn ar lefel genedlaethol — sicrhau'r dysgu mwyaf posibl ar draws y system, lleihau risg a darparu arweinyddiaeth weladwy sy'n trosi polisi yn gamau gweithredu cyson ac ymarferol ar draws GIG Cymru. | Cyfnod 1 (2026–2027) |
| 2. Fframwaith Llywodraethu Clinigol cadarn ar lefel genedlaethol. | 2.1 Sefydlu Fframwaith Llywodraethu Clinigol cenedlaethol cadarn, gan sicrhau cysylltedd di-dor rhwng Llywodraeth Cymru, sefydliadau GIG Cymru a systemau lleol. | Goruchwyliaeth genedlaethol gref, arweinyddiaeth unedig ac atebolrwydd clir yn hyrwyddo diogelwch cleifion drwy gynllunio, sicrwydd, gwelliant a rheolaeth integredig – gan greu system ddiogelwch gyson, dryloyw a pherfformiad uchel ledled Cymru. | Cyfnod 1 (2026–2027) |

## Y Gweithlu

| Amcan | Cam Gweithredu | Effaith | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| 3. Sgiliau a gwybodaeth am ddiogelwch cleifion yn y gweithlu i ymgymryd â'u rolau ar bob lefel. | 3.1 Dylunio a datblygu Cwricwlwm Diogelwch Cleifion cynhwysfawr ar gyfer holl staff GIG Cymru (clinigol ac anghlinigol). | Gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau cyson ar draws rolau clinigol ac anghlinigol wedi'u halinio â strategaethau diogelwch cenedlaethol, safonau, dyletswyddau statudol a'r wyddoniaeth diogelwch ddiweddaraf, sy'n galluogi diwylliant diogelwch unedig ac sy'n lleihau niwed y gellir ei atal. | Cyfnod 1 (2026–2027) — cwmpasu<br><br>Cyfnod 2 (2027–31) — dylunio/ gweithredu |
| 4. Staff amlddisgyblaethol ar draws GIG Cymru sy'n sicrhau bod gofal cleifion diogel yn cael ei ddarparu'n gyson. | 4.1 Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer rhagoriaeth glinigol a model achredu digidol a dilys sy'n cydnabod ac yn dathlu gofal o ansawdd uchel. | Parodrwydd cryfach ar draws y system i drawsnewid y gweithlu, gan ddarparu dull sy'n uno, sy'n cael ei arwain gan werthoedd ac sy'n cefnogi integreiddio ar draws gwasanaethau a phroffesiynau. | Phase 1 (2026-2027) |

# Diwylliant

| Amcan | Cam Gweithredu | Effaith | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| 5. Hinsawdd sy’n hyrwyddo diffuantrwydd, ymddiriedaeth, gwarineb, dysgu ac ymddygiadau cynhwysol. | 5.1 Mabwysiadu fframwaith diwylliant diogelwch cenedlaethol gydag offer ymarferol i ymgorffori diwylliant cyfiawn ac adferol, diogelwch seicolegol, moesgarwch ac ymddygiad cynhwysol. | Diwylliant cyson sy'n seiliedig ar werthoedd, lle mae staff yn teimlo'n ddiogel i siarad, dysgu o ddigwyddiadau a chydweithio'n effeithiol. Yn meithrin ymddiriedaeth, yn lleihau niwed ac yn sbarduno gwelliant parhaus — gan sicrhau bod diogelwch cleifion yn dod yn gyfrifoldeb a rennir ac yn realiti bob dydd ar draws GIG Cymru. | Cyfnod 2 (2027–31) |
| | 5.2 Integreiddio asesiadau diwylliant diogelwch cadarn i Arolwg Staff GIG Cymru drwy ymgorffori offer dilys a chwestiynau wedi'u targedu, sy'n cofnodi sut mae staff yn canfod ac yn profi diogelwch yn eu gweithle. | Darlun sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiwylliant diogelwch ar draws GIG Cymru, gan alluogi sefydliadau i feincnodi perfformiad, nodi cryfderau a bylchau a thargedu gwelliannau lle maent bwysicaf. Yn meithrin diffuantrwydd, ymddiriedaeth a dysgu parhaus. | Cyfnod 2 (2027–31) |
| 6. Yr holl staff wedi’u grymuso i siarad dros ddiogelwch cleifion, a chodi eu lleisiau a rhannu eu profiadau o brofiad byw ac o brofiad a ddysgwyd. | 6.1 Mabwysiadu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (2025) fel conglfaen diwylliant diogelwch cleifion. | Ysgogi newid diwylliannol ar draws GIG Cymru — gan roi gwrando, parch ac atebolrwydd wrth wraidd gofal. Cleifion, teuluoedd a staff yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cefnogi, tra bod sefydliadau'n troi adborth yn gamau gweithredu ystyrlon. | Phase 1 (2026-2027) |
| | 6.2 Gwella a gwreiddio mecanweithiau cadarn ar gyfer codi llais ar draws GIG Cymru drwy weithredu’r Fframwaith Codi Llais Heb Ofn (2023) a Call4Concern yn llawn. | Meithrin amgylchedd diogel yn seicolegol lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u diogelu wrth leisio pryderon. Cyflymu’r gwaith o adnabod risgiau’n gynnar, atal niwed ac ysgogi gwelliant parhaus. Cryfhau gwaith tîm, gwella canlyniadau cleifion ac ymgorffori diogelwch fel cyfrifoldeb a rennir ar draws y system. | Cyfnod 1 (2026–2027) |
| | 6.3 Gweithredu Fframwaith Profiad y Bobl i ymgorffori data ar brofiadau mewn Systemau Rheoli Ansawdd (QMS) sefydliadol. | Trawsnewid adborth yn fewnwelediad y gellir gweithredu arno, gan sicrhau bod gofal yn cael ei lunio gan brofiad byw yn ogystal â thystiolaeth. Meithrin ymddiriedaeth, gwella ansawdd a chreu diwylliant lle mae pob llais yn cyfrannu at ofal iechyd mwy diogel a thosturiol ar draws GIG Cymru. | Cyfnod 1 (2026–2027) |

## Gwybodaeth a Mewnwelediadau

| Amcan | Cam Gweithredu | Effaith | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| 7. Systemau cadarn sy'n galluogi'r gwaith o gasglu, mesur, dadansoddi a rhannu data a gwybodaeth diogelwch cleifion yn effeithiol. | 7.1 Gweithredu'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QOF) ar lefelau cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod blaenoriaethau diogelwch cleifion yn cael eu cwmpasu'n gynhwysfawr, a chreu system gadarn ac integredig ar gyfer monitro a gwella perfformiad diogelwch ar draws GIG Cymru. | Golwg unedig a thryloyw ar ganlyniadau diogelwch ar y ddwy lefel, gan alluogi meincnodi ac adnabod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn gynnar. Ysgogi gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cyflymu gwelliant a sicrhau safonau gofal cyson. | Cyfnod 1 (2026–2027) — mesurau Cyfnod 1<br><br>Cyfnod 2 (2027–31) — datblygiad pellach |
| | 7.2 Datblygu ymhellach a gweithredu dangosfwrdd Beacon fel system ddigidol a gwybodeg wydn sy'n galluogi'r gwaith o gasglu, dadansoddi a rhannu data diogelwch cleifion mewn amser real ar draws GIG Cymru. | Rhwydwaith deallusrwydd diogelwch cysylltiedig a thryloyw sy'n cefnogi rheoli risg rhagweithiol a dysgu cyflym. Ysgogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cyflymu gwelliant a meithrin diwylliant o ddiffuantrwydd a chydweithio. | Cyfnod 1 (2026–27) |
| 8. Triongli mesurau perfformiad, profiad a chanlyniadau meintiol ac ansoddol i lywio gwelliant yn y system sy'n cwmpasu Diogelwch I a Diogelwch II. | 8.1 Integreiddio data o sawl ffynhonnell — megis adroddiadau digwyddiadau, profiad cleifion, canlyniadau clinigol ac adborth gan y gweithlu — i mewn un system gysylltiedig sy'n datgelu patrymau, problemau systemig a ffactorau cyfrannol sy'n trawsnewid data crai yn fewnwelediadau y gellir gweithredu arnynt. | Triongli ffrydiau data amrywiol er mwyn nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg yn gynnar, deall beth sy'n gweithio'n dda a thargedu ymyraethau lle byddant yn cael yr effaith fwyaf. | Cyfnod 2 (2027–31) |

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

| Amcan | Cam Gweithredu | Effaith | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| 9. Y gallu i wella'n genedlaethol, wedi'i alinio â blaenoriaethau diogelwch cleifion. | 9.1 Sefydlu rhaglen dreigl ddeinamig o welliant sy'n seiliedig ar ddata ac sy'n targedu blaenoriaethau diogelwch cenedlaethol y cytunwyd arnynt, gan ddefnyddio mewnwelediadau a thystiolaeth amser real i flaenoriaethu ymyriadau, monitro cynnydd ac addasu'n gyflym. | System iechyd sy'n rhagweithiol ac sy'n dysgu, lle mae gwelliant yn barhaus ac yn cael ei lywio gan ddata. Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a gwella, cyflymu cynnydd mesuradwy ar flaenoriaethau diogelwch cenedlaethol a meithrin cysondeb ar draws GIG Cymru. | Cyfnod 1 (2026–2027) |
| 10. Datblygu system ddysgu diogelwch cleifion i gefnogi gwelliant parhaus. | 10.1 Mabwysiadu system ddysgu gynhwysfawr ar ddiogelwch cleifion sy'n cysylltu data, profiad a gweithgareddau gwella ar draws GIG Cymru. | Amgylchedd dysgu deinamig, ar draws y system, lle mae gwelliannau diogelwch yn barhaus ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Cyflymu newid, atal digwyddiadau rhag digwydd eto a meithrin diwylliant o ddiffuantrwydd a chydweithio. | Cyfnod 1 (2026–2027) |
| | 10.2 Datblygu a gweithredu Fframwaith Ymateb i Bryderon a Dysgu Cymru Gyfan newydd i foderneiddio sut mae digwyddiadau a phryderon diogelwch cleifion yn cael eu hadrodd, eu rheoli a'u hymchwilio. | Meithrin diffuantrwydd, cydweithio ac atebolrwydd ar y cyd. Atal digwyddiadau rhag digwydd eto, cyflymu gwelliant a chryfhau ymddiriedaeth ymhlith cleifion, teuluoedd a staff. | Cyfnod 2 (2027–31) |

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil (parhad)

| Amcan | Cam Gweithredu | Effaith | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| 11. Hyrwyddir a chefnogir ymchwil a datblygu diogelwch cleifion ledled y gweithlu. | 11.1 Ymgorffori’r gwaith o ddysgu o ddata rheolaidd diogelwch cleifion drwy werthusiad academaidd strwythuredig yn GIG Cymru. | Trawsnewid data crai yn fewnwelediadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n llywio polisi ac ymarfer. Mae gwerthuso academaidd yn sicrhau bod gwelliannau wedi'u seilio ar ymchwil gadarn, gan gyflymu dysgu ar draws y system a lleihau niwed. | Cyfnod 2 (2027–31) |
| | 11.2 Creu partneriaethau cryf ar gyfer ymchwil ac arloesi diogelwch cleifion drwy ymgorffori arbenigedd academaidd o fewn sefydliadau GIG Cymru. | Meithrin gallu mewnol ar gyfer gwelliant sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan feithrin diwylliant lle mae ymchwil ac ymarfer yn gweithio law yn llaw i ddarparu gofal mwy diogel a dibynadwy. | Cyfnod 2 (2027–31) |
| | 11.3 Cryfhau mecanweithiau ffurfiol gyda'r byd academaidd i gynnal ymchwil sylfaenol ar faterion diogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg. | Ymateb cyflym i heriau diogelwch newydd a chymhleth drwy ymchwil arloesol, gan sicrhau bod GIG Cymru yn aros ar flaen y gad o ran risgiau, yn ysgogi arloesi ac yn gwella canlyniadau cleifion yn barhaus. | Cyfnod 2 (2027–31) |

# Dull Systemau Cyfan

| Amcan | Cam Gweithredu | Effaith | Llinell Amser |
|---|---|---|---|
| 12. Gweledigaeth genedlaethol am System Rheoli Ansawdd ar gyfer Diogelwch Cleifion, y gellir ei hatgynhyrchu ar lefel sefydliadol. | 12.1 Mynegi a chyfleu gweledigaeth a manteision System Rheoli Ansawdd Genedlaethol (QMS) ar gyfer Diogelwch Cleifion ar draws GIG Cymru. | Dealltwriaeth ac ymrwymiad ar draws y system i gynllun diogelwch cleifion unedig. Mae manteision pendant — megis llai o niwed, dibynadwyedd gwell a chydweithio cryfach — yn meithrin alinio, yn cyflymu'r broses fabwysiadu ac yn sicrhau bod diogelwch cleifion yn dod yn flaenoriaeth strategol a rennir ar draws pob sefydliad. | Cyfnod 1 (2026–2027) |
| | 12.2 Gweithio gyda Byrddau Iechyd, clystyrau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a phroffesiynau contractwyr i gryfhau integreiddio'r Fframwaith Sicrwydd Contractau o fewn y system diogelwch cleifion genedlaethol, gan gynnwys mecanweithiau dysgu a rennir a deallusrwydd diogelwch ar lefel system. | Cysylltu sicrwydd, gwelliant a deallusrwydd diogelwch sy'n cryfhau cydlyniant y system gyfan, yn galluogi crynhoi deallusrwydd diogelwch cymesur ar lefel system ac yn cefnogi triongli arwyddion diogelwch yn ystyrlon ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. | Cyfnod 2 (2027–31) |

**Ffigur 3: Crynodeb o gyflawni'r camau gweithredu'n raddol**

## 2026-2027

### Cyfnod 1 - Sefydlu Sylfeini

- Tîm Diogelwch Cleifion Cenedlaethol wedi'i sefydlu
- Seilwaith llywodraethu cenedlaethol ar gyfer Diogelwch Cleifion ar waith
- Cwricwlwm Diogelwch Cleifion ar gyfer holl staff GIG Cymru wedi'i gynllunio
- Fframwaith cenedlaethol ar gyfer rhagoriaeth glinigol a model dilysu digidol
- Rheoliadau Pryderon y GIG wedi'u gweithredu
- Fframwaith Codi Llais Heb Ofn wedi'i weithredu
- Fframwaith Profiad Pobl wedi'i weithredu
- Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau wedi'i ailadrodd
- Cefnogaeth ar gyfer gwella / blaenoriaethau diogelwch clinigol cenedlaethol y cytunwyd arnynt
- System Ddysgu Diogelwch Cleifion
- System Rheoli Ansawdd ar gyfer Diogelwch Cleifion

## 2027-2031

### Cyfnod 2 - Cyflwyno gwelliannau

- Fframwaith diwylliant diogelwch cenedlaethol
- Mae Arolwg Staff GIG Cymru yn cynnwys asesiadau o ddiwylliant diogelwch
- Systemau digidol a gwybodeg wedi'u datblygu a'u gweithredu ar gyfer Diogelwch Cleifion
- Data wedi'u hintegreiddio o sawl ffynhonnell i drawsnewid data diogelwch cleifion crai yn fewnwelediadau ymarferol
- Fframwaith Ymateb i Bryderon a Dysgu Cymru Gyfan wedi'i ddatblygu a'i weithredu
- Dysgu o werthusiad academaidd strwythuredig wedi'i ymgorffori yn GIG Cymru
- Partneriaethau cryf ar gyfer ymchwil ac arloesi diogelwch cleifion wedi'u creu
- Mecanweithiau ffurfiol wedi'u sefydlu i'r byd academaidd gynnal ymchwil sylfaenol i faterion diogelwch cleifion

## 2031 ymlaen

### Cyfnod 3 - Ysgogi cynaliadwyedd

- Monitro camau gweithredu yn barhaus a nodi meysydd newydd i'w gwella

# 7. Cyflawni'r Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol

**Bydd trosolwg o'r Cynllun yn cael ei gyflawni drwy strwythurau llywodraethu cenedlaethol, gan sicrhau cydlyniad clir â'r dirwedd diogelwch genedlaethol ehangach a'r trefniadau llywodraethu clinigol a nodir yn y Fframwaith Llywodraethu Clinigol sydd â phum amcan:**

- Diffinio cydrannau craidd llywodraethu clinigol yng Nghymru gan gynnwys y rhyngwyneb rhwng GIG Cymru a Llywodraeth Cymru
- Sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol, arferion gorau cydnabyddedig ac egwyddorion gofal iechyd darbodus
- Rhoi eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau
- Cefnogi gwaith i ddatblygu diwylliant o ddiogelwch, rhagoriaeth a gwelliant a dysgu parhaus
- Galluogi meincnodi a sicrwydd ar draws Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau

Mae'r dull hwn yn darparu mecanwaith goruchwylio cydlynol ac integredig sy'n cysylltu Llywodraeth Cymru, cyrff cenedlaethol a sefydliadau lleol. Mae hyn yn galluogi monitro cynnydd yn gyson, nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu cydlynol i gefnogi cyflawniad. Yn ogystal, mae'n sicrhau bod y Cynllun wedi'i wreiddio o fewn prosesau sicrhau sefydledig, gan gryfhau atebolrwydd, tryloywder a dysgu ar draws y system ym mhob rhan o GIG Cymru.

Un o gonglfeini'r Cynllun yw datblygu a mireinio camau gweithredu ar gyfer Cyfnodau 2–5 mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, staff a'r cyhoedd. Bydd pob gweithred yn dilyn templed gweithredol cyson gan gynnwys targedau i'w cyflawni, perchnogion, cerrig milltir, dibyniaethau, risgiau ac adnoddau.

# 8. Mesur yr Effaith

**Bydd y Cynllun yn sbarduno blaenoriaethau diogelwch cleifion clinigol cenedlaethol, gan hyrwyddo'n uniongyrchol y canlyniadau a nodir yn y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, ac yn y pen draw, yn Fframwaith Canlyniadau Iechyd Llywodraeth Cymru.**

Amlinellir yr effaith yn y Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol lefel uchel a chaiff ei monitro drwy gydol y broses o'i roi ar waith, a hynny drwy gyfuniad o fesurau meintiol ac ansoddol, gan gynnwys y canlynol:

- Dangosfwrdd y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau sy'n darparu data amser real ar ganlyniadau ansawdd
- Adolygiadau bob dwy flynedd i asesu cynnydd, ail-raddnodi blaenoriaethau a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac anghenion system

Bydd y broses fesur nid yn unig yn asesu canlyniadau, ond bydd hefyd yn bwydo mewnwelediadau yn ôl i'r system i sbarduno gwelliant ac i feithrin diwylliant o ddysgu a gwydnwch.





# 9. Casgliad

Mae'r Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer gwneud gofal yng Nghymru yn well ac yn fwy diogel. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd GIG Cymru yn canolbwyntio ar adeiladu sylfeini cryf — gwell arweinyddiaeth, diwylliant mwy diogel a defnydd mwy craff o ddata — wrth greu system sy'n dysgu ac yn gwella bob dydd.

Nid dim ond bodloni safonau yw hyn. Mae'n golygu cydweithio ar draws byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a chyrff cenedlaethol i atal niwed, rhannu dysgu ac arloesi, gan gynnwys offer digidol a deallusrwydd artiffisial, er mwyn gwella gofal. Bydd cleifion a staff wrth wraidd y gwaith hwn wrth lunio penderfyniadau a'n helpu i ddeall beth sydd bwysicaf.

**Mae ein nod yn syml: sicrhau gofal sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn deg i bawb.**

Drwy leihau niwed, cael gwared ar amrywiad diangen a meithrin ymddiriedaeth drwy ddiffuantrwydd, byddwn yn creu GIG cryfach a all ymdopi â heriau heddiw a pharatoi ar gyfer y dyfodol.

# Atodiad 1: Y Dystiolaeth a'r Egwyddorion y tu ôl i'n Cynllun

Cynhaliwyd ymchwil gefndirol gychwynnol ar strategaethau diogelwch cleifion rhyngwladol a chenedlaethol. Yn ogystal, nodwyd 12 thema allweddol ac fe'u croesgyfeiriwyd â'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

Cafodd yr ymchwil hon ei thriongli â chanfyddiadau o gyfranogiad mewn 'Grŵp Bord Gron ar Systemau Rheoli Pum Gwlad ar gyfer Diogelwch', sef adolygiad thematig o'r Adolygiad o Weithredu Argymhellion o Ymchwiliadau Blaenorol i Faterion Gofal Iechyd[15], cymhariaeth o'r themâu allweddol yn y Cynllun Iechyd 10 Mlynedd ar gyfer Lloegr[16], yr Adolygiad o Ddiogelwch Cleifion ar draws y Dirwedd Iechyd a Gofal[17] (yn canolbwyntio ar Loegr), Adroddiad o Gyflwr Byd-eang Diogelwch Cleifion 2025[18].

Yn ogystal, cynhaliwyd dadansoddiad bwlch o'r system diogelwch cleifion bresennol yng Nghymru a nodwyd cyfleoedd i weithredu gwelliannau pellach ar y canlynol: Diogelwch II, adrodd ar ddigwyddiadau diogelwch cleifion mewn modd cyfannol, safonau a goruchwyliaeth rheoli digwyddiadau, llywodraethu diogelwch cleifion cenedlaethol ac arweinyddiaeth ddiffiniedig, adrodd effeithiol, safonau ymchwilio i bryderon cenedlaethol a dull systematig at ddiogelwch cleifion. Cefnogir y dadansoddiad hwn gan themâu tebyg a nodwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n tynnu sylw at "system dan bwysau parhaus"[19] ac adolygiad cyflym o themâu diwylliant diogelwch cleifion a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o Grwpiau Cymheiriaid Gweithredol cenedlaethol.

15 Ymchwiliad Thirlwall (2024) Review of Implementation of Recommendations from Previous Inquiries into Healthcare Issues
16 Llywodraeth y DU (2025) Fit for the Future: 10 year health plan for England
17 Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2025) Review of patient safety across the health and care landscape
18 Illingworth J et al. (2026) Global State of Patient Safety 2025
19 Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (2025) 2024–2025

Arweiniwyd datblygiad y Cynllun gan set o saith egwyddor dylunio:

- **Aliniad** - rhaid i'r Cynllun alinio â strategaethau a pholisïau presennol GIG Cymru — gan gynnwys Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020[20] a Chynllun Gweithredu Cymru Iachach (2024)[21] a chyd-fynd â'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau y cytunwyd arno'n genedlaethol. Mae hefyd yn cyd-fynd â Gofal Iechyd Darbodus[22] a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[23].
- **Diwylliant** — rhaid i'r Cynllun ganolbwyntio ar ddatblygu diwylliant o ddysgu a gwella diogelwch drwy osod yr amodau cywir
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid** – bydd y Cynllun yn cael ei arwain gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru a'i ddatblygu drwy ymgysylltu â Pherfformiad a Gwella GIG Cymru, arbenigwyr ansawdd a diogelwch o bob cwr o'r DU, arweinwyr diogelwch cleifion strategol a gweithredol byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, sefydliadau partner cenedlaethol (gan gynnwys Llais sy'n cynrychioli llais y cyhoedd), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a llunwyr polisi
- **Ymarferoldeb** – bydd adolygiadau bob dwy flynedd i fonitro cynnydd ac ail-alinio nodau yn ôl yr angen (2027 a 2029)
- **Seiliedig ar dystiolaeth** – bydd y Cynllun yn dwyn ynghyd dystiolaeth o lenyddiaeth ochr yn ochr ag arbenigedd diogelwch cleifion a mewnwelediadau data
- **Aml-broffesiynol a system gyfan** – bydd y Cynllun yn ymgorffori camau gweithredu sy'n cwmpasu'r system diogelwch cleifion gyfan — y System Rheoli Ansawdd — gan gynnwys elfennau clinigol ac anghlinigol, a bydd yn berthnasol i bob proffesiwn
- **Dyblygadwy** – bydd y Cynllun yn galluogi'r gwaith o ddatblygu system diogelwch cleifion y gellir ei hatgynhyrchu ar lefel genedlaethol a lleol

20 Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (2025) 2024–2025
21 Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (2025) 2024–2025.
22 Llywodraeth Cymru (2016) Gofal Iechyd Darbodus:Sicrhau Iechyd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
23 Llywodraeth Cymru. Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

# Atodiad 2: Cydrannau Craidd System Rheoli Ansawdd ar gyfer Diogelwch Cleifion

| | |
|---|---|
| Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cleifion | **Proses i arweinyddiaeth gynllunio a blaenoriaethu'r gwaith o ddylunio ac ailgynllunio systemau, polisïau, prosesau a gwasanaethau diogelwch, caffael a dyrannu adnoddau a chynhyrchion, a nodi'r capasiti a'r gallu i ddiwallu anghenion y boblogaeth.**<br>• Ffocws di-baid ar anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, llesiant staff a diwylliant wedi'i lywio gan adborth mewnol ac allanol.<br>• Diben wedi'i alinio â'r angen ac wedi'i integreiddio i waith a gwelliannau o ddydd i ddydd.<br>• Dylunio systemau gwydn sy'n lliniaru gorlwytho gwaith a gorlwytho gwybyddol ac sy'n gwella dibynadwyedd perfformiad.<br>• Cynllunio a dylunio addysg diogelwch cleifion wedi'i theilwra i anghenion dysgu, gan ddefnyddio mewnwelediadau o rybuddion, digwyddiadau, profiad a pheryglon a nodwyd.<br>• Mae cleifion, teuluoedd ac eiriolwyr yn bartneriaid yn y broses o gynllunio a gweithredu mentrau diogelwch ac yn cael eu cefnogi i fod yn bartneriaid gweithredol yn eu gofal a'u diogelwch eu hunain.<br>• Mae uwch arweinwyr yn cefnogi mentrau diogelwch yn weladwy ac yn ymgysylltu staff rheng flaen yn rhagweithiol mewn gwneud penderfyniadau. |
| Gwelliant ar gyfer Diogelwch Cleifion | **Hyfforddi ac annog safonol sy'n ymgorffori methodolegau sefydledig ar gyfer gwelliannau parhaus mewn diogelwch i'n poblogaethau.**<br>• Rhoddir sgiliau gwella ansawdd, cefnogaeth gan arbenigwyr diogelwch ac amser wedi'i ddiogelu i staff ar bob lefel i wella diogelwch cleifion.<br>• Mae gwelliannau diogelwch cleifion yn cael eu cynllunio a'u cyflawni'n agos at y rheng flaen, gan weithio gyda staff, defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr.<br>• Mae gwaith gwella diogelwch cleifion yn cael ei gynyddu yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a'i gyd-gynhyrchu â thimau amlddisgyblaethol.<br>• Rhaid mesur gwelliannau diogelwch cleifion i gadarnhau eu bod yn gweithio, nodi effeithiau anfwriadol a phenderfynu a oes angen cymryd camau pellach. |

| | |
|---|---|
| Rheoli Diogelwch Cleifion | **Rheolaeth weithredol ddyddiol gysylltiedig i fonitro a chynnal diogelwch cleifion, gan gynnwys defnyddio mesurau amser real dros amser.**<br><br>• Deall sut mae amodau system yn amrywio, nodi pa amrywiad sy'n ddefnyddiol neu'n niweidiol ac addasu prosesau i aros yn wydn.<br>• Mae timau rheng flaen yn creu prosesau safonol i wella dibynadwyedd a lleihau amrywiad.<br>• Gwneud cywiriadau amser real i brosesau pan fo angen a sicrhau llwybrau uwchgyfeirio clir ar gyfer pryderon diogelwch.<br>• Defnyddio offer gweledol i olrhain tueddiadau a pherfformiad diogelwch, gan helpu i nodi problemau'n gynnar.<br>• Nodi, asesu a lleihau risgiau'n barhaus, gydag ymatebion prydlon ac adrodd cyson.<br>• Dylid archwilio gwaith o ddydd i ddydd i ddeall amodau cudd, cyfaddawdau a datrysiadau dros dro.<br>• Mae dadfriffio rheolaidd, yn enwedig ar ôl sefyllfaoedd heriol, yn cynyddu dysgu i'r eithaf. |

| | |
|---|---|
| Sicrwydd Diogelwch Cleifion | **Proses i sicrhau bod y system yn gweithredu'n effeithiol ac yn darparu gofal diogel yn unol â safonau, canllawiau, polisïau a gofynion rheoleiddio.**<br>• Yn darparu gwelededd ac atebolrwydd sefydliadol clir, gan greu llinell olwg dryloyw o'r rheng flaen i'r bwrdd a chefnogi monitro perfformiad amserol yn ogystal â chamau gweithredu sy'n cyd-fynd ag anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.<br>• Yn defnyddio data a deallusrwydd cynhwysfawr sy'n ymgorffori dadansoddi ôl-weithredol a dadansoddi amser real o ffynonellau mewnol ac allanol i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau.<br>• Yn diffinio llwybrau clir ar gyfer uwchgyfeirio ac ymateb i risg, gan amlinellu sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu blaenoriaethu a'u huwchgyfeirio ar draws y system.<br>• Yn ysgogi gwelliant parhaus drwy ddolenni adborth, gan drawsnewid canfyddiadau sicrwydd yn ddysgu ymarferol, a bwydo mewnwelediadau yn ôl i brosesau cynllunio a gwella.<br>• Yn cyd-fynd â dyletswyddau statudol a goruchwyliaeth reoleiddiol gan ddangos cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd wrth feithrin diwylliant o ddiffuantrwydd ac atebolrwydd sy'n adeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd.<br>• Yn darparu sicrwydd cenedlaethol ar draws y system gofal iechyd drwy oruchwylio a monitro diogelwch cleifion ar lefelau lleol a chenedlaethol.<br>• Monitro gwybodaeth a data cenedlaethol ar ddiogelwch cleifion i gefnogi'r gwaith o nodi themâu, tueddiadau a phatrymau, ynghyd ag arwyddion rhybuddio cynnar, er mwyn nodi materion risg glinigol/lefel system sy'n dod i'r amlwg.<br>• Yn darparu polisïau uwchgyfeirio, fframweithiau a strwythurau llywodraethu cenedlaethol er mwyn galluogi adnabod ac ymyrryd cynnar ar gyfer risgiau neu broblemau perfformiad ar -lefel leol a system. |

| System Adborth | **Dysgu sefydliadol i gryfhau galluoedd sy’n darparu gwydnwch, yn ogystal â gwella canlyniadau cleifion a llesiant staff.**<br><br>• System gadarn sy’n casglu adborth gan gleifion, teuluoedd, staff a phartneriaid.<br>• Defnyddio mewnwelediadau, deallusrwydd a data i lywio cynllunio ansawdd.<br>• Mae dysgu yn mynd i’r afael â materion uniongyrchol a newid hirdymor.<br>• Mae sefydliadau’n defnyddio dysgu anffurfiol a systemau ffurfiol, megis adrodd ar ddigwyddiadau.<br>• Mae dysgu o lwyddiant a methiant (Diogelwch I a II) yn cryfhau gwydnwch a’r gallu i addasu.<br>• Mae dysgu dolen ddwbl yn annog myfyrio dyfnach ac yn herio rhagdybiaethau y tu ôl i broblemau cymhleth.<br>• Mae adrodd straeon yn cefnogi dysgu ar y cyd, myfyrio a gwybodaeth dawel |
|---|---|

# Atodiad 3: Tirwedd Rheoli Ansawdd a Llywodraethu presennol GIG Cymru ar gyfer Diogelwch Cleifion

**Y Cyd-destun Polisi:**

- **Cymru Iachach**
- **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020**
- **Y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol**

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol / Prif Swyddog Gweithredol GIG Cymru**

## Sicrwydd Diogelwch Cleifion

**Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** yn gyfrifol am arolygu a rheoleiddio ansawdd a diogelwch gofal iechyd y GIG a gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.

**Mae Archwilio Cymru** yn gyfrifol am roi sicrwydd ynghylch rheoli arian cyhoeddus a gwerth a gwelliant wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

**Mae Cronfa Risg Cymru (WRP)** sy'n rhan o **Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)** yn gyfrifol am indemnio cyrff iechyd rhag risg ac annog gwelliant mewn diogelwch a chanlyniadau cleifion trwy ddysgu o hawliadau, themâu a thueddiadau.

Mae **Gwasanaeth Archwilio Meddygol Cymru** yn gyfrifol am ddarparu craffu annibynnol ar achosion marwolaeth.

Mae **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)** yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a chynghorwyr Cymru.

Mae **Swyddfa'r Crwner** yn gyfrifol am ymchwilio i farwolaethau sydyn neu anarferol.

Mae cyfarfod chwe-misol y **Cyd-dîm Gweithredol** yn dwyn ynghyd Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a thîm Gweithredol holl Gyrff y GIG i sicrhau atebolrwydd am berfformiad, llywodraethu, cyflenwi gwasanaethau a gweithrediad cyffredinol y sefydliad.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd Contract (CAF) yn darparu'r mecanwaith y mae Byrddau Iechyd yn ei ddefnyddio i sicrhau darpariaeth Contract GMS Unedig i Gymru.

### Galluogwyr:

- Fframweithiau'r GIG – Ansawdd, Perfformiad, Ariannol
- Archwilio Clinigol
- Cyfarfodydd Atebolrwydd Cyhoeddus
- Dangosfwrdd Beacon
- System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru (OWCMS) a Datix Cymru
- Archwiliad Clinigol Cenedlaethol a'r Rhaglen Canlyniadau Cleifion
- Fframwaith Goruchwylio ac Uwchgyfeirio'r GIG – Sefydliadau GIG Cymru (2025)
- Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol (NRI)

## Rheoli Diogelwch Cleifion

Mae Cyrff Proffesiynol (y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Cymdeithion Meddygol, Cymdeithion Anaesthesia, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal) yn gyfrifol am osod safonau ar gyfer proffesiynau iechyd unigol a sicrhau cydymffurfedd â'r safonau hyn trwy gofrestru, archwilio ac ymchwilio.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn gyfrifol am ymgorffori datrysiadau a seilwaith digidol cenedlaethol sy'n hyrwyddo diogelwch ac sy'n ddiogel, yn effeithlon ac yn ymatebol i anghenion clinigol.

### Galluogwyr:

- Safonau Proffesiynol
- Polisi Cenedlaethol ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion;
- Y Broses Gweithio i Wella
- Call 4 Concern
- Fframwaith Profiad Pobl
- Cylchlythyrau Iechyd Cymru

## System Adborth

- **Mae Llais yn gyfrifol am sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn cael eu clywed a bod adborth yn cael ei ddefnyddio i helpu i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.**
- **Mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer Dysgu a Gwella Diogelwch Cleifion yn gweithredu fel canolfan fyd-eang – gan fanteisio ar arbenigedd academaidd, data o ddigwyddiadau yn y byd go iawn, a rhwydweithiau rhyngwladol i gefnogi systemau gofal iechyd mwy diogel yng Nghymru ac yn rhyngwladol.**
- **Strwythur Llywodraethu ac Atebolrwydd Llywodraeth Cymru**

### Galluogwyr:

- Cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflenwi Integredig (IQPD) gyda Llywodraeth Cymru, PaG GIG Cymru a sefydliadau GIG Cymru i drafod, herio ac asesu eu gallu i ddarparu gwasanaethau o safon.
- Mae Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth GIG Cymru a phartïon allweddol yn defnyddio cyfarfodydd y Bwrdd Ansawdd a Chyflenwi i drafod pryderon pob sefydliad a materion sy'n peri pryder.
- Cyfarfodydd teirochrog rhwng Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), fel rhan o drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru, i drafod y sefyllfa ym mhob Corff y GIG.
- Uwchgynhadledd Gofal Iechyd sy'n casglu mewnwelediadau a rennir gan reoleiddwyr, arolygwyr, cyrff proffesiynol, a sefydliadau llais y claf.

## Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cleifion

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y polisi a'r ddeddfwriaeth ar gyfer ansawdd a diogelwch gan ystyried gwybodaeth a dysgu sy'n deillio o GIG Cymru, a chan rhanddeiliaid, cleifion a'r cyhoedd.

Mae Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru yn comisiynu gwasanaethau risg uchel ac arbenigol gyda safonau diogelwch integredig ac yn arfer goruchwyliaeth glinigol a llywodraethu.

### Galluogwyr:

- Datganiadau Ansawdd
- Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal
- Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025-2028
- Rheoliadau Pryderon, Cwynion ac Iawn
- Codi Llais heb Ofn
- Cynlluniau Tymor Canolig Integredig

## Gwelliant ar gyfer Diogelwch Cleifion

Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru (PaG GIG Cymru) yn gyfrifol am sbarduno gwelliannau mewn ansawdd a diogelwch gofal gan arwain at ganlyniadau gwell a mwy cyfartal, a gwell mynediad a phrofiad y claf, llai o amrywiad, a gwelliannau yn iechyd y boblogaeth.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn gyfrifol am ymgorffori diogelwch ar draws GIG Cymru drwy baratoi'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol drwy addysg, hyfforddiant ac offer ymarferol ar gyfer diogelwch.

### Galluogwyr:

- Rhaglenni Strategol Cenedlaethol
- Rhwydweithiau Strategol Cenedlaethol
- Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSI)

**Mae Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd diogel ac o ansawdd i ddiwallu anghenion eu poblogaethau.**

© Crown copyright 2026

Cyhoeddwyd Mawrth 2026
Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **https://performanceandimprovement.nhs.wales/**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn **nhspi.qualityandsafety@wales.nhs.uk**

GIG CYMRU NHS WALES

Perfformiad a Gwella

Performance and Improvement